# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 26 Ionawr 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

## 48(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo.

Mae'r Llywydd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni chafwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

(5 munud)

**NDM7893** Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn mynegi ei diolchgarwch am gyfraniad Nick Bennett yn ystod ei dymor yn swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 10.5 a, gan weithredu o dan baragraff 1 i Atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, yn enwebu Michelle Morris i'w phenodi i swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan Ei Mawrhydi am dymor o saith mlynedd i ddechrau ar 1 Ebrill 2022.

**Dogfen ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig

(60 munud)

**NDM7880**

James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionnydd)

Natasha Asghar (Dwyrain De Cymru)

Carolyn Thomas (Gogledd Cymru)

Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Rhys ab Owen (Canol De Cymru)

Samuel Kurtz (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi y cymerwyd 101 miliwn o deithiau bws yng Nghymru yn 2018/19, o'i gymharu â 129 miliwn yn 2004/05.

2. Yn nodi ymhellach nad oes gan 23 y cant o bobl yng Nghymru fynediad at gar neu fan.

3. Yn cydnabod bod trafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol yng nghefn gwlad Cymru i atal pobl rhag teimlo'n unig ac ynysig.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) darparu cyllid hirdymor cynaliadwy i awdurdodau lleol er mwyn gwella gwasanaethau bysiau gwledig;

b) sicrhau bod cynghorau gwledig yn cael cyfran deg o fuddsoddiad yn y dyfodol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a chynlluniau teithio llesol;

c) gwarantu bod Strategaeth Fysiau Genedlaethol Cymru yn ystyried heriau unigryw trafnidiaeth gyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru.

d) blaenoriaethu buddsoddi mewn cerbydau trafnidiaeth gyhoeddus nad ydynt yn achosi allyriadau mewn ardaloedd gwledig.

**Cefnogwyr:**
Paul Davies (Preseli Sir Benfro)
Peter Fox (Mynwy)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1**
**Alun Davies (Blaenau Gwent)**
**Hefin David (Caerffili)**
**Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**
**Rhys ab Owen (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y difrod a wnaed drwy breifateiddio gwasanaethau bysiau yn y 1980au ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i ail-reoleiddio gwasanaethau bysiau fel mater o frys yn y Senedd hon.

**Cefnogwr:**
Carolyn Thomas (Gogledd Cymru)

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Effaith Covid ar addysg

(60 munud)

**NDM7895** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu at effaith andwyol cyfyngiadau COVID-19 ar blant a phobl ifanc ledled Cymru, gan gynnwys:

a) dysgwyr yng Nghymru yn colli mwy o ddyddiau o'u haddysg na dysgwyr mewn rhannau eraill o'r DU yn ystod y pandemig;

b) casgliad Estyn bod holl sgiliau mathemateg, darllen, iaith Gymraeg a chymdeithasol dysgwyr wedi dioddef o ganlyniad i gau ysgolion.

2. Yn nodi'r diffyg parhaus o ran cyllid fesul disgybl yng Nghymru o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i oresgyn effaith y pandemig ar ddysgwyr Cymru er mwyn sicrhau y gall pob person ifanc gyrraedd ei botensial, drwy:

a) gwarantu y bydd ysgolion yn aros ar agor;

b) cael gwared ar y gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb mewn ysgolion a cholegau cyn gynted â phosibl;

c) cyflymu'r broses o gyflwyno addasiadau awyru gwell mewn amgylcheddau dysgu;

d) codi'r gwastad o ran cyllid ysgolion ledled Cymru i fynd i'r afael â'r diffyg yng Nghymru o'i chymharu â chenhedloedd eraill y DU.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Lesley Griffiths (Wrecsam)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn gresynu at effaith andwyol COVID-19 ar ddysgu a lles plant a phobl ifanc.

2. Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i gymryd camau priodol i sicrhau bod addysgu wyneb yn wyneb yn cael ei flaenoriaethu a bod yn rhaid gwneud penderfyniadau i leihau mesurau diogelu rhag COVID mewn ysgolion yn unol â'r data.

3. Yn credu bod blaenoriaethu lles disgyblion a staff yn hanfodol wrth i ni ymateb i'r pandemig.

4. Yn nodi canfyddiadau'r Sefydliad Polisi Addysg bod Cymru'n gwario'r swm mwyaf fesul disgybl ar adfer addysg yn y DU.

5. Yn croesawu bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar:

a) £50 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol i alluogi ysgolion i ymgymryd â gwaith atgyweirio a gwella, gan ganolbwyntio ar fesurau iechyd a diogelwch, megis gwella awyru;

b) £45 miliwn o gyllid refeniw ychwanegol i gefnogi ysgolion wrth iddynt barhau i ddelio ag effeithiau parhaus y pandemig ac i baratoi ar gyfer gofynion y cwricwlwm newydd

[Comparing education catch-up spending within and outside the UK - Education Policy Institute (epi.org.uk)] *(Saesneg yn unig)*

***[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]***

**Gwelliant 2.** [Sian Gwellian (Arfon)]

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu at effaith andwyol cyfyngiadau COVID-19 ar blant a phobl ifanc ledled Cymru.

**Gwelliant 3.** Sian Gwellian (Arfon)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw effeithiau y mae'r pandemig COVID-19 parhaus yn eu cael ar blant a phobl ifanc yn y dyfodol, yn enwedig o ran dysgu ac iechyd meddwl, yn cael eu lleihau drwy fuddsoddi mewn:

a) technoleg hidlo aer i sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud i gadw ysgolion yn agored ac yn ddiogel;

b) darpariaeth iechyd meddwl i flaenoriaethu iechyd meddwl a llesiant.

## 8 Dadl Plaid Cymru – Bil Etholiadau llywodraeth y DU

(60 munud)

**NDM7894** Siân Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod etholiadau'n deg ac yn hygyrch i bob pleidleisiwr.

2. Yn condemnio Llywodraeth y DU am gyflwyno'r Bil Etholiadau a fydd yn cyflwyno newidiadau mawr i etholiadau a gadwyd yn ôl, gan gynnwys ei gwneud hi'n ofynnol cyflwyno dulliau adnabod ffotograffig i bleidleisio.

3. Yn cefnogi ymgyrch #HandsOffOurVote sy'n ceisio sicrhau na chaiff unrhyw bleidleisiwr cyfreithlon ei droi i ffwrdd o'r blwch pleidleisio.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wrthwynebu'r mesurau a gyflwynwyd gan y Bil Etholiadau ar bob cyfle gyda Llywodraeth y DU a chodi pryderon yn eu cylch.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**

Gwelliant 1. Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu Bil Etholiadau Llywodraeth y DU a'i ddarpariaethau i gryfhau uniondeb etholiadau ledled y Deyrnas Unedig.

Yn nodi bod cyflwyno ID pleidleiswyr wedi'i gefnogi gan y Comisiwn Etholiadol a bod Swyddfa Sefydliadau Democrataidd a Hawliau Dynol y Sefydliad ar gyfer Diogelwch a Chydweithredu yn Ewrop wedi datgan bod ei absenoldeb yn risg diogelwch.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydweithio â Llywodraeth y DU i wella uniondeb yr holl etholiadau a gynhelir yng Nghymru.

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7892** [Russell George (Sir Drefaldwyn)]

Manteision adfer camlas Trefaldwyn: edrych ar gynnydd a manteision y gwaith adfer parhaus sy'n cael ei wneud gan grŵp angerddol o unigolion, gwirfoddolwyr a sefydliadau lleol.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 1 Chwefror 2022

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 19/01/2022 i'w hateb ar 26/01/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG NEWID HINSAWDD

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

1 OQ57516 **(e)** Datganodd yr Aelod fuddiant

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chyngor Sir Ddinbych ynghylch atgyweirio seilwaith a ddifrodwyd gan storm Christoph?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

2 OQ57498 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn codi ymwybyddiaeth o effaith newid yn yr hinsawdd mewn cymunedau lleol?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

3 OQ57523 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd prosiect creu coetiroedd Llywodraeth Cymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

4 OQ57507 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o benderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru i wahardd hela trywydd ar dir y mae'n ei reoli?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

5 OQ57514 **(w)**

Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i wneud ffyrdd sy’n llifogi’n gyson yn fwy gwydn?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

6 OQ57494 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i warchod natur ar draws parth 200 milltir forol Cymru?

**Hefin David** *Caerffili*

7 OQ57528 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer llwybrau teithio llesol yng Nghaerffili?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

8 OQ57511 (e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau rheilffordd yn Islwyn?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

9 OQ57520 (e)

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y pwyntiau gwefru ceir ar stoc tai hŷn?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

10 OQ57503 (e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y broses bresennol o ddynodi safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

11 OQ57522 (e)

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

12 OQ57496 (e)

Sut y bydd y Gweinidog yn ymgorffori'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy ar draws holl bortffolios polisi Llywodraeth Cymru?

## GWEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

1 OQ57499 (e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Benfro?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

2 OQ57506 (e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch mewn ysgolion ac o'u hamgylch?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

3 OQ57510 (e)

A wnaiff y Llywodraeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i ddarparu prydau ysgol am ddim i ddisgyblion ysgol gynradd?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

4 OQ57521 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gymorth ariannol ar gyfer addysg bellach?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

5 OQ57493 **(e)**

Pa gymorth y mae'r Gweinidog yn ei ddarparu i ysgolion sydd â lefelau staffio is o ganlyniad i COVID-19?

**Joel James** *Canol De Cymru*

6 OQ57519 **(e)**

Sut y bydd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn gwella cynwysoldeb i bob dysgwr?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

7 OQ57508 **(w)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wneud y Gymraeg mor hygyrch â phosibl yng Nghaerdydd?

**Buffy Williams** *Rhondda*

8 OQ57489 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y pandemig ar y bwlch cyrhaeddiad?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

9 OQ57491 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn Abertawe?

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

10 OQ57518 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau nad oes unrhyw darfu ar ddarpariaeth addysg oherwydd COVID-19 yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

11 OQ57512 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ba gyfleusterau cymunedol sydd ar gael yn Islwyn o ganlyniad i raglen ysgolion yr 21ain ganrif?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

12 OQ57524 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyfleoedd ariannu sydd ar gael i ysgolion gwledig yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?